

## Disgrifiad Swydd

## 1. Manylion y Swydd

**Teitl y Swydd:** Cynorthwy-ydd Cyfathrebu

**Prif Leoliad:** Tŷ Ystumllwynarth, Llansamlet, Abertawe

**Yn Adrodd i'r:** Pennaeth Cyfathrebu a Pherfformiad

## 2. Prif bwrpas, amcan a chyd-destun y rôl (crynodeb)

- Fel aelod o'r Tîm Cyfathrebu a Pherfformiad, byddwch yn darparu ystod eang o gymorth gweinyddol ar gyfer y sefydliad cyfan, er mwyn cynorthwyo i gyflawni ein gwaith o ddydd i ddydd a'n gwaith prosiectau, fel yr amlinellwyd yn ein cynllun gwaith tair blynedd.
- Byddwch chi'n cefnogi'r fîm sy'n gyfrifol am gyfathrebu mewnol ac allanol i ddweud wrth eraill am y gwaith rydym ni'n ei wneud ar ran plant a phobl ifanc, gan gynnwys trwy gylchlythyron.
- Byddwch yn rhan o rota i reoli prif linell ffôn y swyddfa, gan ymateb i ymholiadau cychwynnol dros y ffôn, cymryd negeseuon a throsglwyddo negeseuon ar hyd y dydd.
- Byddwch yn cymryd rhan mewn grwpiau prosiect traws-swyddogaethol yn y swyddfa, gan weithio ar y cyd i gefnogi amcanion y prosiect.

## 3. Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau

- Darparu ystod eang o gymorth gweinyddol i gydweithwyr ar draws y sefydliad cyfan yng nghyswllt gwaith prosiect penodol, gan gynnwys mynychu cyfarfodydd, cymryd nodiadau mewn cyfarfodydd, dilyn ymlaen o gamau gweithredu, mewnbynnu data, ffeilio, gwaith llungopïo a darnio, a gosod eitemau ar yr agenda.
- Ymchwilio a drafftio cynnwys yn Gymraeg a Saesneg i'w gymeradwyo gan Swyddogion perthnasol ar gyfer cyflwyniadau PowerPoint, datganiadau i'r wasg, datganiadau, dogfennau briffio a deunydd arall fel sy'n briodol, i'w ddsbarthu i'r cyfryngau sy'n cael eu targedu a rhanddeiliaid eraill.
- Cynorthwyo i fonitro llwyfannau cyfryngau cymdeithasol a llifoedd newyddion er mwyn canfod storïau newydd y gallai'r Swyddog Cyfathrebu eu defnyddio i fwyafu'r sylw i'r Comisiynydd.
- Cynnal cysylltiadau da â phartneriaid allweddol, gan gynnwys ein 600+ o ysgolion llysgenhadon, trwy amrywiaeth o sianeli cyfathrebu.
- Cefnogi'r Swyddog Cyfathrebu i gynnal ein presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol a chynnwys ein gwefan.
- Ymateb yn sensitif i ymholiadau ffôn gan blant a phobl ifanc, sefydliadau eraill a'r cyhoedd, gan gymryd negeseuon, trosglwyddo negeseuon a gwirio am negeseuon ar y peiriant ateb yn rheolaidd.

- Cynorthwyo i gynnal cronfa ddelweddau'r sefydliad, i'w defnyddio yn ein hadroddiadau ac ar-lein.
- Cynorthwyo gyda'r gwaith o gynhyrchu adroddiadau'r sefydliad, gan gynnwys yr Adroddiad Blynyddol, trwy gysylltu ag asiantaethau dylunio ac argraffu allanol a phrawffdarllen deunydd Cymraeg a Saesneg.
- Cefnogi gwaith gyda phlant a phobl ifanc ar gais ac ar lefel briodol, yn unol â gwerthoedd y Comisiynydd Plant.
- Cefnogi'r broses o greu diwylliant cynhwysol a chefnogol yn y gweithle trwy ddarparu cymorth a chyflenwi ar gyfer dyletswyddau cydweithwyr yn achlysurol ar draws pob swyddogaeth yn ôl y galw.
- Cynnal gwerthoedd fîm y Comisiynydd a'i ymrwymiad i hybu hawliau plant a gwrandao ar blant a'u cynnwys mewn agweddau allweddol ar waith y Comisiynydd.
- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n gymesur â gradd y swydd, fel y bydd y Tim Rheoli neu unrhyw un o'i aelodau yn barnu sy'n angenrheidiol.

<b>Manyleb Person Cynorthwy-ydd Cyfathrebu</b>	
<b>Cymwysterau/Cyraeddiadau</b>	
<b>Hanfodol</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Safon dda o addysg, gan gynnwys llwyddo ar lefel TGAU neu gyfatebol mewn Cymraeg, Saesneg a Mathemateg</li> </ul>	<b>Dymunol</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cymhwyster lefel diploma mewn cyfathrebu a/neu'r cyfryngau neu faes pwnc arall perthnasol megis Saesneg neu farchnata.</li> </ul>
<b>Sgiliau</b>	
<b>Hanfodol</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Lefel uchel o sgiliau trefnu, a gallu amlwg i flaengynllunio er mwyn cadw at derfynau amser.</li> <li>• Sgiliau cyfathrebu ardderchog ar lafar ac yn ysgrifenedig.</li> <li>• Y gallu i gyfathrebu'n hwylus yn Gymraeg ag aelodau o'r cyhoedd a rhanddeiliaid allanol, neu barodrwydd i wella sgiliau Cymraeg sydd eisoes yn agos at fod yn rhugl yn gyflym, gydag anogaeth a chefnogaeth.</li> <li>• Sgiliau TGCh hynod fedrus, gan gynnwys Excel, PowerPoint, Word a WordPress.</li> <li>• Bod yn gyfarwydd â llwyfannau cyfryngau cymdeithasol ac yn gyfforddus yn eu defnyddio.</li> <li>• Gallu i gyflawni tasgau gyda ffocws pendant ar ofal cwsmeriaid.</li> <li>• Gallu i weithio gyda lleiafswm o oruchwyliaeth.</li> <li>• Gallu i ymateb yn gwrtais ac yn ddigynnwrf i alwadau cymhleth a delio gyda galwyr mewn modd llawn cydymdeimlad.</li> </ul>	<b>Dymunol</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gallu i gynhyrchu cynnwys cryno, diddorol a chywir ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd.</li> <li>• Sgiliau prawffdarllen a chyfieithu cywir yn Gymraeg a Saesneg.</li> </ul>
<b>Gwybodaeth a Phrofiad</b>	
<b>Hanfodol</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Profiad o weithio mewn fîm.</li> <li>• Profiad o ddarparu gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid.</li> </ul>	<b>Dymunol</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Profiad o greu a chyhoeddi cynnwys ar-lein a/neu oddi ar-lein trwy astudiaethau perthnasol, gwaith gwirfoddol neu waith am dâl.</li> <li>• Profiad o greu cynnwys digidol, gan gynnwys</li> </ul>

	<p>fideos byr.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Peth dealltwriaeth a gwybodaeth am CCUHP.</li> <li>• Peth gwybodaeth am y cyfryngau yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig</li> <li>• Profiad o becynnau meddalwedd, gan gynnwys Photoshop a pheynnau dylunio eraill.</li> </ul>
<p><b>Nodweddion</b></p>	
<p><b>Hanfodol</b> Tystiolaeth o'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Meddylfryd hunangymhellol a rhagweithiol.</li> <li>▪ Bod yn ymroddedig i gynrychioli barn plant a phobl ifanc ym mhopeth a wnawn.</li> <li>▪ Gallu i feithrin perthnasoedd gwaith da ar bob lefel, ar draws grwpiau neu sefydliadau ac oddi mewn iddynt.</li> <li>▪ Gallu i weithio ar eich menter eich hun ac fel rhan o dîm.</li> <li>▪ Gallu i ymwneud â phobl o ystod eang o gefndiroedd amrywiol.</li> </ul>	<p><b>Dymunol</b> Tystiolaeth o'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Agwedd greadigol ac arloesol at baratoi deunydd ac ymateb i anghenion cyfathrebu amrywiaeth o gynulleidfaoedd, gan gynnwys plant a phobl ifanc.</li> <li>• Bod yn ymroddedig i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc.</li> </ul>
<p><b>Hanfodol</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Parodrwydd i deithio'n achlysurol ledled Cymru.</li> </ul>	<p><b>Dymunol</b></p>